

## **Cyngor Cymuned Llanelian (273)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Chwefror 2, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:**Dafydd Griffiths, Thomas D Jones, John Griffiths, Wesley Parry, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Glenys Jones, Cyng Wil Hughes, Cyng Richard Jones, Iwan Huws (Cyngor Sir)

**Ymddiheuriadau:**Cyng Aled M Jones

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Diolchwyd i Iwan Huws, Rheolwr Twristiaeth a Morwrol Ynys Mon am ymuno a'r aelodau i drafod dyfodol y llithrfa.

### **2 Datgan Diddordeb**

Cyng Wil Hughes a Cyng Richard Jones – Materion cynllunio

### **7 Llithrfa**

Croesawyd Iwan Huws i'r cyfarfod. Fe ofynnodd pam fod y Cyngor Cymuned wedi dod i'r penderfyniad o gau y llithrfa ac fe gafwyd esboniad a chrynodeb o hanes y broblem a'r Bartneriaeth gan y Cadeirydd. Cydnabyddwyd bod y broblem wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd y cynllun goriadau yn gweithio mwyach.

Esboniodd Iwan Huws y toriadau oedd yn gwynebu'r adran forwrol, a sut roeddent yn blaenoriaethu lleoli wardeniaid ac adnoddau eraill. Cydnabyddwyd bod y nifer o oriadau wedi eu dosbarthu yn Llanelian wedi gostwng dros y blynyddoedd, a bod defnyddwyr yn cael si nad yw'r bolard yn ei le, nad oedd y safle yn cael ei reoli ac felly yn cymryd mantais o'r sefyllfa.

Trafodwyd y posibilrwydd o gau'r llithrfa yn gyfan gwbwl ond fe gwestiynwyd mynediad i'r gwasanaethau argyfwng megis gwylwyr y glannau neu Ambiwlans petai angen. Cytuno gosod polion ar draws y slip a dosbarthu goriadau i'r gwasanaethau argyfwng fyddai'r syniad gorau. Byddai posib agor llithrfa ar gyfer gweithgareddau arbennig e.e. rasmus rhwyfo yn cychwyn o'r bae.

Bydd Iwan Huws yn adrodd yn ol i John Owen er mwyn cadanhau hawliau tramwy, unrhyw faterion cyfreithiol a sut i weithredu'r cynllun a bydd mewn cysylltiad gyda diweddariad i'r Cyngor cyn gynted a phosib. Nodwyd bod y trafodaethau yn amserol iawn gan fod llyfrynau twristiaeth Mon yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd, a bydd posib diweddarau gwybodaeth am draeth Llanelian cyn iddo gael ei argraffu.

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Elfyn Hughes, eilio John Griffiths.

### **4 Materion yn Codi**

#### **4.1 Cais Cynllunio ger Rhos Newydd**

Cafwyd cadarnhad drwy ebost bod Cyng Aled M Jones wedi gwrthwynebu'r cais ac yn nodi mai cais i newid defnydd y tir i gael storio coed ac offer oedd y cais diweddaraf ar gyfer y datblygiad.

#### **4.2 Arian Grant**

Mae Horizon wedi rhoi caniatad i'r arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y prosiect yn y cae chwarae gael ei wario ar ddatblygu mannau eraill o'r caeau chwarae. (i'w drafod ymhellach tra'n trafod y gyllideb).

#### **4.3 Yswiriant**

Cafwyd cadarnhad bod polisi'r Cyngor yn cynnig yswiriant ar gyfer holl eiddo'r Cyngor gan gynnwys Maes Llwyfo.

#### **4.4 Ffordd Newydd o Osod Tai Cymdeithasol**

Trafodwyd yr ymgynghoriad sydd yn cymryd lle ar hyn o bryd. Mae'r dogfennau i'w cael ar wefan y Cyngor Sir. Bydd angen ymateb erbyn 6/3/2016. Deallwyd bod y system fandio i fod yn decach i'r ymgeiswyr na'r system gyfredol o osod pwyntiau.

Nodwyd pryderon yr aelodau bod rhai tenatiaid cymdeithasol yn camdrin y system. Roedd yr aelodau yn ymwybodol o dau dy nad oedd y tenatiaid yn byw ynddynt. Gofynnwyd pa drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y pobl hynnu sydd wir angen tai yn byw ynddynt wedi iddynt gael eu gosod. Y clerc i gysylltu a'r Adran Dai.

CET

## 5 Cynllunio

5.1 Roedd un cais i'w drafod –

Cynlluniau diwygiedig ar gyfer Dublin/Kingston (24C254B). yn anffodus nid oedd modd mynegi barn ar y cynlluniau gan nad oedd y dogfennau yn cysoni a'u gilydd. Y Clerc i gysylltu a'r Adran Gynllunio i gael pecyn wedi ei gywiro cyn gynted a phosib.

CET

5.2 Penderfyniadau - Ni chafwyd wybod am unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor Sir.

## 6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£83.88 Viking Direct (Adnoddau gweinyddol)

£11.94 Viking Direct (Adnoddau gweinyddol)

£170.00 Aelodaeth Un Llais Cymru

6.2 **Cyllideb**

Dosbarthwyd copiau o'r gyllideb ar daenlen wedi ei baratoi yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc. Cafwyd esboniad o wahanol agweddau ohono a rhoddwyd cyfle i unrhyw aelod ofyn cwestiynau. Nodwyd nifer o bwyntiau fel y ganlyn -

Cae Chwarae – yn dilyn cadarnhad gan Horizon i wario'r arian ar agweddau gwahanol o'r cae chwarae, mae digon o arian dros ben 2015/16 i brynnu swing i blant anabl ac hefyd trin yr offer coed (£3802 cyn TAW). Cynnigwyd bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosib. Cynnig Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker, pawb yn gytun. Cytuno gwahodd rheini oedd wedi ariannu gwahanol agweddau i ymweld a'r cae chwarae unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn ei gyfanrwydd.

CET  
CET

Maes Llwyfo – ni fydd angen polisi yswiriant annibynnol ar gyfer y cae chwarae. Cytuno gofyn i Richard Edwards dorri y cae chwarae fel rhan o'i gytundeb torri gwair. Bydd posib ail edrych ar y gwahanol becynnau cynnal a chadw ar ddiwedd y cytundeb pan fyddent yn cael eu hysbysebu i dendr.

CET

Eisteddfod Genedlaethol 2017 – Mae'r swm arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer rhoddion wedi ei gynyddu yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 ac fe fydd posib gwneud hynnu eto yn 2017/18 fel bod modd cyfrannu tuag at yr eisteddfod dros gyfnod o ddwy flynedd petai'r aelodau yn dymuno gwneud hynnu.

Cofgolofn – Cytuno gofyn i Richard Edwards dorri a thwtio o amgylch y golofn fel rhan o'i gytundeb torri gwair. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a Huw Roberts (Cerrig Beddi) am bris i drin a thrwsio'r ysgrifen ar y gof-golofn. Unwaith daw pris bydd posib chwilio am grantiau. Cytuno bydd y Cyngor yn gallu cyfrannu tuag y fath prosiect.

CET

CET

Cronfa Goffa JG Jones – fe atgoffwyd yr aelodau beth oedd y pwrpas y cyfrif banc yma a chytuno byddai talu'r swm yn ei gyfanrwydd i'r Ysgol Gynradd gan fod y llog mor isel erbyn hyn. Byddai wedyn posib cau y Cyfrif.

CET

CET

Roedd yr holl aelodau yn hapus i dderbyn y gyllideb ar gyfer 2016/17 ac fe ddiolchwyd i Dafydd Griffiths, Hefina Williams a'r Clerc am eu gwaith.

6.3 **Priseb**

Cytuno dylai priseb y Cyngor aros yn £11,243.82. Cynnig Elfyn Hughes, eilio Thomas D Hughes, pawb yn gytun.

CET

## 8 Cyfarfod Wylfa Newydd

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd chwech Cyngor Cymuned Gogledd Mon gyda prif swyddogion Horizon yng Nghemaes 27/1/2016. Cafwyd grynodedb o'r prif bwyntiau a drafodwyd sef 1) Gwella'r

lon o Gemaes i Amlwch, 2) Datblygu safle Rhosgoch, 3) Adnoddau i'r ysgolion cynradd ac Ysgol Syr Thomas Jones, 4) Canolfan Hamdden Amlwch, 5) Trethi Lleol.

Cytuno ei bod yn bwysig bod y Cynghorau Cymuned yn cydweithio mewn Partneriaeth er budd yr ardal leol. Gobeithir bydd cyfarfod eto mewn 2-3 mis. Bydd copi o gofnodion y cyfarfod ar gael yn fuan.

## **9 Gohebiaeth**

Daw gwybodaeth gan Horizon am wahanol weithgareddau a sesiynnau gwybodaeth a gynhelir yn y gymuned dros yr wythnosau nesaf. Maent yn ymgynghori ar nifer o ddogfennau ar hyn o bryd. Bydd angen ymateb erbyn 23/3/2016.

## **10 Unrhyw Fater Arall**

### **10.1 Cwn Swnllyd**

Cafwyd diweddariad drwy ebost gan Cyng Aled M Jones. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn parhau i fonitro'r sefyllfa, ac fe bwysleiswyd bod angen i unrhyw un sydd yn cwyno fod yn barod i roi tystiolaeth yn y llys petai angen. Fe ofynnodd John Griffiths am fanylion cyswllt yr adran Iechyd Amgylcheddol fel bod modd cysylltu yn unionsyth gyda chwynion.

### **10.2 Golau'r Neuadd**

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Alan Phillips i ddatgan siom nad oedd wedi bod mewn cysylltiad a Phwyllgor y Neuadd i drefnu cwblhau'r gwaith trydanol a wnaethpwyd rhai misoedd yn ol.

CET

### **10.3 Cystadleuaeth Golff**

Cafwyd wybod gan Cyng Richard Jones am gystadleuaeth sydd i'w gynnal ddechrau mis Mai. Gobeithir codi arian i'w ddsbarthu i'r Cynghorau lleol tuag at brosiectau yn eu cymunedau.

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 1/3/2016**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.50 o'r gloch.